DEDDF COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU ETC. 2013

Gorchymyn Llan-wern (Trefniadau Etholiadol) 2026

Gwnaed - - - - [25/11/2026]

A ddaw i rym yn unol ag erthygl 1(2)

Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn") wedi argymell i Weinidogion Cymru fod nifer aelodau Cyngor Dinas Casnewydd sydd i'w hethol ar gyfer ward etholiadol Llan-wern yn cael eu cynyddu i ddau, o ganlyniad i arolwg cymunedol Casnewydd.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cydsynio o dan adran 38(3) Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 i'r Comisiwn wneud y Gorchymyn hwn.

Mae'r Comisiwn, gyda'r cydsyniad hwnnw, yn gwneud y Gorchymyn canlynol wrth arfer y pwerau a roddir gan adran 38(1) y Ddeddf honno.

Teitl a chychwyn

1.—(1) Teitl y Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llan-wern (Trefniadau Etholiadol) 2026.

(2) At bob diben arall, daw'r Gorchymyn hwn i rym yn yr etholiad llywodraeth leol nesaf.

Diwygio Gorchymyn Dinas a Bwrdeistref Sirol Casnewydd (Trefniadau Etholiadol) 2021

2. Yn y Tabl yn yr Atodlen i Orchymyn Dinas a Bwrdeistref Sirol Casnewydd (Trefniadau Etholiadol) 2021 (Offeryn Statudol (OS) 2021/1216 (W. 305)), yn y cofnod sy'n ymwneud â Llan-wern, yng ngholofn 4 (nifer aelodau'r cyngor), disodli "1" â "2".

Wedi'i selio â sêl Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar y **25 diwrnod o Dachwedd 2026**

[25/11/2026]

Karen Jones

Cadeirydd

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Nodyn Esboniadol

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Gwneir y Gorchymyn hwn gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, o dan adran 38 Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013. Mae'n gweithredu argymhelliad y Comisiwn i gynyddu nifer yr aelodau a etholir i Gyngor Dinas Casnewydd ar gyfer ward etholiadol Llan-wern o un i ddau.

Mae Erthygl 2 yn diwygio nifer yr aelodau a bennwyd ar gyfer Llan-wern yn yr Atodlen i Orchymyn Dinas a Bwrdeistref Sirol Casnewydd (Trefniadau Etholiadol) 2021. Nid yw ynddi'i hun yn newid enw nac ardal y ward etholiadol honno, trefniadau etholiadol unrhyw ward etholiadol arall, na nifer aelodau Cyngor Cymuned Llan-wern.

Mae'r newid yn berthnasol i'r etholiad llywodraeth leol nesaf. Daw'r Gorchymyn i rym yn gynharach ar gyfer trafodion rhagarweiniol i'r etholiad hwnnw neu drafodion sy'n ymwneud ag ef.